# ROWLAND, JOHN (1816? - 1888), awdur Undodaidd

**Enw:** John Rowland
**Dyddiad geni:** 1816?
**Dyddiad marw:** 1888
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdur Undodaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Walter Thomas Morgan

brodor o Fachynlleth, lle cadwai siop am y rhan fwyaf o'i oes. Dadleuai yn gryf dros yr athrawiaeth Undodaidd ac adwaenid ef yn gyffredin fel ' Yr Undodwr.' Ysgrifennodd amryw bamffledi i amddiffyn ei ffydd, yn enwedig *Y Cyff Athrawiaethol; yn nghyd ag amrai o'i ganghenai mewn naw o benodau anerchiadol at Drinodwyr y Byd*, 1870. Defnyddiai hefyd farddoniaeth i fynegi ei syniadau diwinyddol a gwleidyddol, yn cynnwys cân hir, *Telyn yr Oes; neu Gân ar y Beibl mewn amryw gysylltiadau pwysig i'r byd wedi eu dosbarthu yn dair pennod yn cynnwys dros gant ac wyth o linellau*, 1877, a'r baledi *Y Llo Aur yn arwain llu*, 1880, ac *Anerchiad Mr. John Jones i John Bwl, yswain, ar y gwaddoliadau, trethoedd, etc.*, 1879. Bu farw 12 Ionawr 1888 yn 72 mlwydd oed.

## Awdur

**Walter Thomas Morgan**, (1912 - 1990)

## Ffynonellau


R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20738116

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu